# Atgofion am *Kristallnacht*: Y *Bar Mitzvah* Olaf

## CANLLAWIAU I ATHRAWON

Mae hwn yn un o ddau adnodd ar bwnc *Kristallnacht* ac un o 20 am yr Holocost a Chymru.

Mae'n archwilio adroddiad Julius Weil am ei *Bar Mitzvah*, sef y seremoni *Bar Mitzvah* olaf i gael ei chynnal yn Synagog Glockengasse (Cwlen), yr Almaen cyn iddi gael ei dinistrio yn ystod *Kristallnacht*.

**Oedran:** 9-14.

### 1. DIBEN YR ADNODD

Mae dysgu am yr Holocost trwy enghreifftiau lleol yn galluogi'r dysgwyr i **ddarganfod eu treftadaeth** a **datblygu ymdeimlad o le a chynefin**. Mae hefyd yn cael gwared ar y syniad o 'aralledd' *('otherness')* – sef bod hyn wedi digwydd i bobl eraill mewn man arall ac ar adeg arall – ac, yn lle hynny, **mae'n creu teimladau o gysylltiad ac empathi**.

### 2. NODAU DYSGU

Nod yr adnodd yw galluogi'r dysgwyr i:

1. Archwilio materion moesegol a moesol y gorffennol a'r byd cyfoes, ac ymgysylltu â chysyniadau o ran rhagfarn, gwahaniaethu, gwrthsemitiaeth, eithafiaeth, cydraddoldeb, goddefgarwch, dynoliaeth, cyfrifoldeb, da a drwg, gwneud cysylltiad rhwng problemau'r gorffennol a'r presennol, ac ystyried beth sy'n digwydd yn lleol ac yn fyd-eang heddiw.

2. Datblygu meddwl beirniadol a myfyriol.

3. Archwilio a datblygu sgiliau creadigol ac artistig.

4. Magu hyder a chadernid a meithrin empathi: Dod yn fwy ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain wrth iddynt gyfranogi mewn gweithgareddau gydag eraill, a chydnabod bod gan bobl eraill brofiadau a theimladau.

5. Dod yn ddinasyddion cyfrifol yng Nghymru a'r byd ehangach.

### 3. FFOCWS YR ADNODD

1. Mynd ati mewn modd beirniadol i adolygu'r modd y mae digwyddiadau'r gorffennol a digwyddiadau cyfoes yn cael eu canfod, eu dehongli, a'u cynrychioli; ffurfio eu safbwynt eu hunain a meithrin hunanymwybyddiaeth.

2. Dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol a'i gwerthuso; dehongli a syntheseiddio gwybodaeth; dod i gasgliadau gwybodus am y byd, a'i orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

3. Mynegi syniadau ac emosiynau trwy gelf.

4. Dysgu am gymhlethdod cymdeithasau dynol a'r amrywiaeth ynddynt (e.e., gwerthoedd, normau cymdeithasol, defodau, a ffyddiau) ac effaith gweithredoedd a chredoau.

5. Datblygu dealltwriaeth o heriau a chyfleoedd yn eu bywydau personol ac yn y gymdeithas yn ehangach, ac ystyried sut i ymateb yn foesegol.

## 4. PA SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD Y MAE'R ADNODD YN HELPU I'W DATBLYGU?

Dangosyddion dysgu:

1. Gwybodaeth am *Kristallnacht* a dealltwriaeth ohono (e.e., beth ydoedd, pam y digwyddodd, a phwy a gafodd ei dargedu) a’i gysylltiad â Chymru (e.e. ffoaduriaid a oedd yn blant yn dod i Gymru).

2. Gwybodaeth am y diwylliant a'r credoau Iddewig, a dealltwriaeth ohonynt.

3. Y gallu i ddarganfod, gwerthuso'n feirniadol, a defnyddio ffynonellau gwahanol (e.e., hanesion llafar a gwaith celf) i ffurfio a mynegi eu barn, eu safbwynt, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain.

4. Y gallu i ymateb i ddigwyddiad hanesyddol a myfyrio arno, a hynny gyda chreadigrwydd sy'n gwneud defnydd o ysbrydoliaeth a dychymyg.

5. Profiad o gymryd rhan mewn celf yn rôl crëwr ac aelod o gynulleidfa.

6. Dealltwriaeth o gysyniadau moesegol a moesol, e.e., gwahaniaethu, hiliaeth, gwrthsemitiaeth, a phwysigrwydd gwerthoedd democrataidd a hawliau dynol.

7. Y gallu i wneud cysylltiad rhwng gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd a chrefydd yn y gorffennol ac yn y byd cyfoes, ac ystyried yr hyn sy’n digwydd heddiw yng Nghymru, y DU, a’r byd, e.e., ffoaduriaid sy'n dod i'r DU/i Gymru.

8. Deall bod gan bobl gredoau, gwerthoedd, a phrofiadau gwahanol, a pharchu anghenion a hawliau pobl eraill.

9. Y gallu i weithio'n rhan o dîm.

10. Profiad o gymryd rhan mewn trafodaethau a thasgau grŵp.

11. Dod yn fwy ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a gallu eu cyfathrebu.

12. Meithrin empathi tuag at bobl eraill a'u hamgylchiadau/a'r heriau y maent yn/wedi eu hwynebu, e.e., plant a ddaeth i'r DU ar *Kindertransport*, neu ffoaduriaid modern.

## 5. Y MODD Y MAE'R ADNODD YN CEFNOGI DYSGU MEWN CYD-DESTUNAU LLEOL (CYNEFIN), CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

Mae’r adnodd hwn yn galluogi'r dysgwyr i glywed straeon pobl yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan yr Holocost ac a oedd yn byw yng Nghymru. Dyma hanesion pobl a oedd yn rhan o'u cymunedau

Cymraeg lleol ac a gyfrannodd atynt. Ymgartrefodd y bobl hyn a chael teuluoedd yma, ac mae eu hanes yn rhan o stori Cymru.

Gall yr enghreifftiau lleol hyn helpu'r dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng hanes Cymru a digwyddiadau byd-eang megis yr Ail Ryfel Byd a'r Holocost.

## 6. GWYBODAETH GEFNDIR

**Gwybodaeth am *Kristallnacht*:**

Ar 9 a 10 Tachwedd 1938, cynhaliodd y gyfundrefn Natsïaidd gyfres o ymosodiadau o'r enw 'pogromau' yn erbyn y boblogaeth Iddewig yn yr Almaen ac yn nhiriogaethau meddianedig eraill y Natsïaid. Daeth y digwyddiad hwn yn hysbys fel *Kristallnacht* neu 'Noson y Gwydr Toredig' oherwydd y gwydr chwilfriw a lenwai'r strydoedd ar ôl y fandaliaeth a'r dinistr i synagogau, a busnesau a chartrefi a oedd yn eiddo i Iddewon. Mae'r adnodd hwn yn archwilio atgofion Julius Weil am y digwyddiad dinistriol hwn. Daeth Julius i'r DU ar *Kindertransport* yn 1938; bu'n byw gyntaf yn Lloegr ac yna yng Nghymru. Bu farw Julius yng Nghaerdydd yn 2021.

**Trosolwg:**

Daeth Hitler i rym yn 1933 a digwyddodd *Kristallnacht* yn 1938. Roedd yr hyn a arweiniodd at *Kristallnacht*, y digwyddiad ei hun a'r canlyniadau, i gyd yn rhagarweiniad hollbwysig i'r Holocost a gyflawnwyd gan yr Almaen Natsïaidd a'i chydweithredwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## 7. SYNIADAU a CHWESTIYNAU

1. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i archwilio'r modd y mae'r Holocost yn cael ei gyflwyno mewn celf.

Dylid bod yn eglur ynghylch y ffaith nad oes angen i gelfyddyd sy'n darlunio'r Holocost fod yn raffig nac yn ddirdynnol i edrych arni; gellir defnyddio symbolaeth i bortreadu'r digwyddiadau dinistriol hyn.

Cwestiynau:

- Sut y gall yr Holocost gael ei ddarlunio mewn celf?
- Beth y mae defnyddio symbolaeth i bortreadu digwyddiadau'r Holocost yn ei olygu?

2. Gellir defnyddio'r adnodd i hybu meddwl beirniadol a myfyriol **(nod dysgu 2)**.

Meddwl yn feirniadol: Mae'n annog y dysgwyr i ofyn cwestiynau, i werthuso'r wybodaeth yn feirniadol, ac i gymryd rhan mewn trafodaeth ystyrlon.

Meddwl myfyriol: mae'n annog y dysgwyr i ddadansoddi'r wybodaeth a llunio barn am yr hyn sydd wedi digwydd.

Cwestiynau:

- Sut y mae'r dysgwyr yn teimlo ynghylch creu gwaith celf?
- Beth yw effaith gwaith celf ar y dysgwyr pan fyddant yn rôl y crëwr, a phan fyddant yn aelod o gynulleidfa?

3. Gellir defnyddio'r adnodd i archwilio cyfryngau celf gwahanol ac i annog creadigrwydd y dysgwyr.

Mae'r dysgwyr yn creu celfyddyd gosodwaith sy'n cyfleu stori'r *'Bar Mitzvah* olaf*'* a chanlyniad y trais a ddinistriodd y synagogau yn ystod *Kristallnach*t.

**Beth yw celfyddyd gosodwaith?**
Ystyr celfyddyd gosodwaith yw darn 3D o gelf mewn gofod, y gellir ei adeiladu o amrywiaeth o ddeunyddiau. Gall weithiau ddwyn ynghyd gelf a pherfformio.

Er nad yw'n gwbl angenrheidiol, byddai'n fanteisiol ar gyfer y gweithgaredd hwn pe bai'r dysgwyr yn gallu defnyddio **stiwdio ddrama** ac ynddi rigin goleuadau. Os nad oes stiwdio ddrama blwch du ar gael i chi, gallwch osod ardaloedd yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer pob grŵp trwy ddefnyddio ffabrig, cardbord neu bapur du i greu'r 'blwch du' lle gall y dysgwyr greu eu gosodiadau. Gellir defnyddio lampau neu dortshys i efelychu rig goleuadau.

Bydd angen i chi hefyd gasglu amrywiaeth o wrthrychau syml a/neu ddeunyddiau celf i'r dysgwyr eu defnyddio. Gallai propiau a deunyddiau enghreifftiol gynnwys papur o liwiau gwahanol, 'darnau o wydr toredig' ffug (sy'n ddiogel i'w defnyddio ac ar gael ar ffurf cyflenwad celf), paent, ac eitemau o ddillad (e.e., gwisg parti).

Dylid rhoi tua 20 munud i'r dysgwyr gyflawni'r gweithgaredd. Gellir ymestyn y dasg, os bydd amseriad yn caniatáu, i greu gosodiadau mwy a manylach. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gynllunio eu gosodiad yn y wers gyntaf, a gallai eu tasg gwaith cartref gynnwys paratoi eitemau i'w rhannu yn y wers nesaf. Gallai hyn ganiatáu mwy o ddewis a pherchnogaeth.

Sicrhewch fod yna ddigon o amser i'r dysgwyr weld pob gosodiad a grëwyd.

Efallai yr hoffech dynnu llun o'r gwaith celf i'w arddangos.

4. Gellir defnyddio'r adnodd i:
- Archwilio a chydnabod profiadau a theimladau pobl a gafodd eu herlid gan y Natsïaid.
- Galluogi'r dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain, ac i fagu hyder a meithrin cadernid ac empathi.

Cwestiynau:
- Beth a brofodd Julius Weil? Sut yr oedd yn teimlo?

5. Gellir defnyddio'r adnodd i archwilio arwyddocâd y ddefod Iddewig *Bar/Bat Mitzvah* ac i drafod pwysigrwydd seremonïau tebyg mewn crefyddau/diwylliannau eraill, e.e. bedydd, conffyrmasiwn, priodas, graddio, angladd, Hajj, a seremonïau a digwyddiadau eraill y mae'r dysgwyr a/neu eu teuluoedd wedi bod yn rhan ohonynt **(nod dysgu 4)**.

Cwestiynau:
- Beth yw arwyddocâd defodau a seremonïau?
- Sut y mae credoau, defodau, gwerthoedd, a normau/arferion cymdeithasol yn effeithio ar benderfyniadau a gweithredoedd y dysgwyr? Sut y gallant eu helpu i ymddwyn mewn modd cyfrifol a moesegol?

Os oes gennych ddysgwyr Iddewig yn eich dosbarth, efallai yr hoffech eu hannog i rannu eu profiadau eu hunain.

8. YMCHWIL A RHAGOR O WYBODAETH

**1. Cyflwyniad i addysgu a dysgu am yr Holocost:**

Mae'r Argymhellion ar gyfer Addysgu a Dysgu am yr Holocost o eiddo'r Gynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) yn darparu gwybodaeth am pam, beth a sut o ran addysgu am yr Holocost.

Gall taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (Holocaust Educational Trust), sef 'Defining the Holocaust', gael ei defnyddio i gyflwyno pwnc yr Holocost i'r myfyrwyr; mae'n helpu'r dysgwyr i feddwl am y modd y mae'r Holocost yn cael ei ddiffinio a pham y mae'r mater o ddiffiniad yn bwysig.

**2. Deunydd darllen pellach:**

*Kristallnach*t:

- Gwyddoniadur yr Holocost *(Holocaust Encyclopaedia)* yr Holocaust Memorial Museum yn yr Unol Daleithiau:
  - Pwy oedd y dioddefwyr?
  - Deddfwriaeth wrth-Iddewig yn yr Almaen cyn y rhyfel: 1937-1938
  - Deddfwriaeth wrthsemitaidd 1933-1939.

Synagog Glockengasse, Cwlen, yr Almaen:

- Bywyd y Synagog: Synagog Glockengasse, Cwlen (Köln yn Almaeneg).
- Wikipedia: Synagog Glockengasse.

Yr Iddewon yng Nghwlen:

- Canolfan Dogfennau Sosialaeth Genedlaethol Dinas Cwlen *(NS Documentation Centre of the City of Cologne)*: The Jewish fate.

*Bar* a *Bat Mitzvah*:

- Llyfrgell Rithwir Iddewig: Arferion a Defodau Iddewig: *Bar/Bat Mitzvah*.
- Fy Nysgu Iddewig: *Bar a Bat Mitzvah 101*.

Celfyddyd gosodwaith:

- Tate: Celfyddyd Gosodwaith.
- Beth yw Celfyddyd Gosodwaith – Diffiniad, Enghreifftiau ac Artistiaid.

**3. Rhestr o 20 adnodd am yr Holocost a Chymru:**

- *Kindertransport* 1: Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd.
- *Kindertransport* 2: Y Daith i Brydain.
- *Kindertransport* 3: Cyrraedd Cymru.
- *Kindertransport* 4: Bywyd yng Nghymru.
- Atgofion o *Kristallnacht*: Dinistr a Dianc
- Atgofion o *Kristallnacht*: Y *Bar Mitzvah* olaf.

- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Josef Herman.
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Heinz Koppel.
- Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest.
- General Paper & Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest.
- ‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Gwersylloedd Caethiwo.
- ‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Hawliau Dynol.
- Ffoaduriaid Iddewig a oedd yn Weision Domestig.
- Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru a oedd yn Feddygon, Deintyddion a Nyrsys.
- Ffoaduriaid Iddewig yn y Fyddin Brydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Bywyd Crefyddol Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru.
- Y Gymraeg.
- Rhyddhad.
- Hunaniaeth.
- Cofio'r Holocost.